OHPA
Office of the Health Professions Adjudicator

Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd

Adroddiad a Chyfrifon o 25 Ionawr hyd 31 Mawrth 2010

Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd (OHPA)

Adroddiad a Chyfrifon
o 25 Ionawr hyd 31 Mawrth 2010

Cyflwynwyd yr adroddiad i Senedd San Steffan yn unol â pharagraff 20(3)(a)
Atodlen 6 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008

Cyflwynwyd y cyfrifon i Senedd San Steffan yn unol â pharagraff 19(5)
Atodlen 6 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008

Cyflwynwyd yr adroddiad i Gynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â pharagraff 20(3)(b)
Atodlen 6 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008

Cyflwynwyd y cyfrifon i Gynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â pharagraff 19(4)
Atodlen 6 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu 28 Hydref 2010

HC50 Llundain: Y Llyfrfa £14.75

Cysylltu â OHPA

Manylion cyswllt yr OHPA yw:

Office of the Health Professions Adjudicator (OHPA)
Room 7/5/1 New Kings Beam House
22 Upper Ground
Llundain SE1 9BW

Ffôn: 020 7633 7708

Ffacs: 020 7633 7146

E-bost: info@ohpa.org.uk

Gwefan: http://ohpa.org.uk

© Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd (2010)

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd a nodi teitl y ddogfen. Mewn achosion lle nodir deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd deiliad yr hawlfraint dan sylw.

Dylai unrhyw ymholiad ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael ei anfon atom: info@ohpa.org.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar http://www.official-documents.gov.uk/

ISBN: 9780102969214

Cyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID P002393832 10/10

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Cynnwys

Rhan 1:

Rhagair gan Gadeirydd OHPA **06**

Sylwebaeth Reoli **08**

Rhan 2:

Cyfrifon 2009-2010 **14**

Rhan 1: Rhagair gan gadeirydd OHPA

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad a chyfrifon cyntaf Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd (OHPA). Gohiriwyd cyhoeddi'r ddogfen am resymau a oedd yn gyfan gwbl y tu hwnt i reolaeth OHPA.

Gan taw ar 25 Ionawr 2010 y daeth OHPA yn gorff corfforaethol, rwyf yn y sefyllfa anarferol o adrodd ar 65 diwrnod o weithgarwch yn unig. Serch hynny, roedd derbyn statws corfforaethol yn dynodi carreg filltir bwysig ar y llwybr tuag at greu'r math o gorff a oedd gan y Fonesig Janet Smith mewn golwg yn ei hadroddiad i Ymchwiliad Shipman a gyhoeddwyd yn 2004-05. Ei dadansoddiad hi oedd y dylai fod rhaniad clir rhwng ymchwilio i feddygon a'r broses o ddyfarnu a ddylid caniatáu iddynt ymarfer. Sefydlwyd yr OHPA o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 fel corff annibynnol a oedd yn gyfrifol yn unswydd am ddyfarnu gweithwyr iechyd proffesiynol, gan ddechrau gydag ymarferwyr meddygol.

Fodd bynnag, mae ethol Llywodraeth Glymblaid newydd ym mis Mai 2010 wedi golygu bod datblygiadau OHPA yn y dyfodol yn llai sicr o lawer. Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ynghylch dyfodol dyfarnu ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol, a'rdewis a ffafrir ar hyn o bryd yw dileu'r ddeddfwriaeth yn ymwneud ag OHPA ac, mewn deddfwriaeth ar wahân, bwrw ymlaen gyda chamau i gynyddu annibyniaeth dyfarnu a moderneiddio prosesau sy'n bodoli eisoes o fewn y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC). Y bwriad, wrth gwrs, oedd y byddem yn cymryd cyfrifoldeb dros ddyfarnu addasrwydd meddygon i ymarfer o'r CMC ym mis Ebrill 2011. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn hysbys yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Os bydd OHPA yn mynd yn ei flaen, mae'r Senedd wedi rhoi set o rymoedd i ni sy'n briodol i dribiwnlys cyfiawnder gweinyddol modern. Byddai gennym rymoedd i reoli achosion, y grym i wneud cyfarwyddiadau mewn perthynas â chynnal gweithrediadau, gan gynnwys canlyniadau achosion o fethu â chydymffurfio, a'r grym i ddyfarnu costau a threuliau. Gan ddefnyddio'r grymoedd hyn, credwn fod gobaith cadarn o gyflwyno disgyblaeth dynnach wrth reoli achosion, gan leihau eu hyd cyfartalog cyn gwrandawiad ac yn ystod y gwrandawiad ei hun. Dylai hyn yn ei dro leihau'r gost gyfartalog i bawb dan sylw.

Y Senedd hefyd sydd wedi pennu enw ar ein cyfer ond rydym wedi ystyried a allai enw gwahanol gyfleu swyddogaeth fwriadedig OHPA yn well. Mae'r paneli y byddem yn eu penodi i wneud penderfyniadau wedi'u dosbarthu fel tribiwnlysoedd yn llygaid y system cyfiawnder gweinyddol ac felly mae'n bosibl y byddai enw cyfansawdd yn disgrifio'u diben yn well – fel Tribiwnlys y Proffesiynau Iechyd.

Mae OHPA eisoes wedi'i restru gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder o dan gylch gorchwyl y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (AJTC). Mae hyn yn gwbl briodol o ystyried y swyddogaeth farnwrol rydym yn gobeithio'i chyflawni a chysylltiad helaeth cyfreithwyr fel eiriolwyr a chynrychiolwyr y partïon. Dylid ystyried OHPA nid yn unig yn rhan o'r system o reoleiddio iechyd ond hefyd yn rhan o'r system cyfiawnder disgyblu proffesiynol a'n bwriad, gyda chefnogaeth yr AJTC, yw creu cysylltiadau gyda thribiwnlysoedd eraill a chyrff sy'n gyfrifol am swyddogaethau cyfatebol ar gyfer proffesiynau eraill fel cyfreithwyr, bargyfreithwyr, penseiri, syrfewyr, milfeddygon a chyfrifwyr.

Y gweithgarwch sefydlu

Mae rhai cerrig milltir allweddol a gweithgarwch gan yr Adran Iechyd wedi arwain at greu ein corff. Yn y Papur Gwyn, *Trust, Assurance and Safety*, a gyhoeddwyd yn 2007, cofnodwyd penderfyniad y Llywodraeth flaenorol i sefydlu corff dyfarnu annibynnol, a grëwyd wedyn gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008. Yn dilyn hyn, sefydlodd yr Adran weithgor o dan y teitl *Tackling Concerns Nationally*, a gadeiriwyd gan Syr Ian Kennedy, i gynllunio gwaith manylach ynghylch sut dylid sefydlu OHPA a sut y gallai weithredu. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, cofnodwn sut mae argymhellion y grŵp hwnnw wedi'u symud yn eu blaen.

Yn gynnar yn 2009, sefydlodd yr Adran fwrdd prosiect dan gadeiryddiaeth uwch swyddog, gyda chynrychiolaeth gan y CMC, y Cyngor Optegol Cyffredinol a'r AJTC, a phenodwyd rheolwr prosiect allanol. Cymeradwyodd y Cyfrin Gyngor reoliadau'r bwrdd a dirprwywyd y dasg o ddethol aelodau i'r bwrdd i'r Comisiwn Penodiadau, a benododd ein pum aelod sef y cadeirydd, y prif weithredwr a thri swyddog anweithredol. Rwyf yn ddiolchgar i'r prif gomisiynydd, Ann Lloyd, a arweiniodd y broses ddethol, ac i Tony Swabe, yr aseswr annibynnol, ac i staff y comisiwn a gefnogodd y broses.

Ym mis Hydref 2009, penodwyd rheolwr rhaglen i recriwtio ac arwain tîm interim o gyfarwyddwyr i symud gwaith yn ei flaen ym meysydd cyfathrebu, adnoddau dynol, technoleg gwybodaeth, adeiladau, cyllid, polisi a chefnogaeth gyfreithiol. Erbyn mis Ionawr 2010 roedd y rhan fwyaf o'r tîm interim yn ei le, ac yn gweithio'n agos â'u cymheiriaid cyfatebol yn y CMC. Yn ystod y cyfnod sefydlu hwn, cyn 25 Ionawr ac yn yr adeg yr adroddir yn ei chylch, buom yn rhan o fenter ar y cyd i sicrhau cyfnod trosiannol didrafferth a chawsom gydweithrediad helaeth a phroffesiynol gan aelodau cyngor y CMC, ei staff a llawer o'r rhai sy'n gwasanaethu ei baneli ac yn cynghori ar ei banel.

Tua diwedd 2009, cawsom farn llawer o'r rhai sy'n ymddiddori ym maes dyfarnu iechyd, fel cyrff proffesiynol, rheoleiddwyr, cyfreithwyr, sefydliadau amddiffyn ac eraill, ynghylch sut y gellid gwella'r broses ddyfarnu, gan rannu cyfoeth o brofiad a syniadau. Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r holl bobl hynny sydd wedi cyfrannu mor gymwynasgar at ein gwaith o gynllunio polisi. Ar ran bwrdd OHPA, hoffwn ddiolch hefyd i bawb sydd wedi cyfrannu at ein hymdrechion hyd yma, yn gydweithwyr yn yr Adran Iechyd, CMC, Cyngor Optegol Cyffredinol a phartïon eraill â diddordeb, i'r tîm trosiannol a gynullwyd gennym.

Walter Merricks CBE
October 2010

Sylwebaeth Reoli

Rhagair

Sefydlwyd Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008.

Mae'r is-ddeddfwriaeth yn gofyn bod OHPA yn cael ei reoli gan fwrdd sy'n cynnwys cadeirydd, aelod gweithredol, ac uchafswm o dri aelod anweithredol ar y bwrdd. Dylai'r cadeirydd fod yn gyfreithiwr cymwysedig sy'n meddu ar ddeng mlynedd o brofiad ac ni chaiff yr un o aelodau'r bwrdd fod yn berson sydd erioed wedi cymhwyso i ymarfer mewn unrhyw un o'r proffesiynau iechyd. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r cadeirydd a'r aelodau anweithredol wedi bod yn eu swyddi. Dyma nhw:

- Walter Merricks CBE (cadeirydd)
- Pamela Charlwood
- Andrew Colquhoun
- Y Fonesig Janet Finch

Penodwyd prif weithredwr, Stephen Shaw CBE, yn ystod mis Chwefror 2010 a daeth i'w swydd ym mis Mai 2010.

Ein rôl ni yw darparu llywodraethu i'r tîm trosiannol bach i sicrhau bod OHPA yn y sefyllfa orau bosibl i gyflawni ei amcanion. Cyfarfu'r bwrdd ddwywaith yn ystod y cyfnod adrodd.

Cynlluniwyd y ddeddfwriaeth a greodd OHPA i sicrhau rhaniad clir rhwng y gwaith o ymchwilio i achosion addasrwydd i ymarfer a'r broses o benderfynu a yw addasrwydd gweithiwr iechyd proffesiynol i ymarfer wedi'i andwyo. Yn ystod y cyfnod adrodd, buom yn gweithio ar y dybiaeth y byddem yn cymryd cyfrifoldeb dros y system ddyfarnu ar gyfer meddygon sy'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) ym mis Ebrill 2011. Disgwyliwyd y byddai'r system ddyfarnu ar gyfer optegwyr ac optometryddion yn cael ei throsglwyddo o'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn ddiweddarach.

Gan gymryd y bydd rhaglen OHPA yn mynd rhagddi, prif gyfrifoldebau OHPA fydd penodi panelwyr ac aseswyr i gynnal gwrandawiadau a fydd:

- Yn penderfynu a yw addasrwydd meddyg neu optegydd i ymarfer wedi'i andwyo.
- Yn sicrhau diogelwch cleifion a'r cyhoedd drwy gyfarwyddo'r corff rheoleiddio i gyfyngu ymarfer gweithiwr iechyd proffesiynol neu ei ddileu oddi ar y gofrestr ar gyfer ei broffesiwn pan fydd hynny'n briodol.
- Yn ystyried yr angen am sancsiynau dros dro (gorchmynion interim) a fydd yn cyfyngu ymarfer gweithiwr iechyd proffesiynol neu'n ei atal rhag ymarfer cyn i wrandawiad llawn gael ei gynnal.
- Yn ystyried ceisiadau gan weithwyr proffesiynol i'w hadfer ar ôl cael eu dileu oddi ar y gofrestr am resymau addasrwydd i ymarfer.

Buom yn gweithio o fewn amserlen dynn i sefydlu'r sefydliad nawr o'r newydd o ystyried yr angen i ymgynghori â'r cyhoedd a chael cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer rheolau OHPA a'i ddull o weithio. Bu'n rhaid recriwtio staff, dod o hyd i adeiladau, a chytuno ar systemau, polisïau, gweithdrefnau a chontractau.

Yn ystod y cyfnod adrodd ffurfiwyd tîm trosiannol erbyn diwedd y flwyddyn a oedd yn cynnwys naw aelod o staff dros dro. Roedd unigolion allweddol yn eu lle i arwain ar adnoddau dynol, technoleg gwybodaeth, adeiladau, cyllid, cyfathrebu, polisi a chefnogaeth gyfreithiol. Cydlynwyd y gwaith o'u penodi a'r camau sefydlu cychwynnol gan gyfarwyddwr rhaglen a lywiodd y cyfnod trosiannol yn fedrus o fod yn brosiect dan arweinyddiaeth yr Adran Iechyd i fod yn gorff annibynnol newydd.

Yn yr adroddiad *Tackling Concerns Nationally* gwnaed argymhellion ynghylch sut y dylid troi darpariaethau perthnasol Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 yn weithredoedd. Mae'r argymhellion sy'n ymwneud ag OHPA yn cynnig fframwaith i'n galluogi i adrodd ar ein gweithgareddau a'n cyflawniadau hyd yma.

Statws yr OHPA

Argymhelliad

Dylai OHPA feddu ar statws sy'n cyfateb i'r egwyddor o fod yn annibynnol ar y Llywodraeth a diddordebau adrannol o ran ei ryddid gweithredol ac ariannol.

Cadarnhaodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mawrth y dylid ystyried OHPA yn gorff corfforaethol o'r llywodraeth ganolog, yn hytrach nag yn gorff cyhoeddus anadrannol. Roedd hyn yn golygu y byddai OHPA yn adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd o fis Ebrill 2011. Tan fis Ebrill 2011, byddai camau sefydlu OHPA yn cael eu cyllido drwy gymorth grant gan yr Adran Iechyd.

Argymhelliad

Dylid ystyried rhestru OHPA o dan y Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi er mwyn ei unioni â chylch gorchwyl yr AJTC. Byddai hyn yn sicrhau y byddai aelodau AJTC yn ymweld â gwrandawiadau OHPA ac yn adolygu, ystyried ac adrodd ar gyfansoddiad a gweithgareddau OHPA.

Rhestrwyd OHPA o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 ar 25 Ionawr 2010, gan osod OHPA yn gadarn o fewn cylch gorchwyl yr AJTC.

Argymhelliad

O dan ddarpariaethau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, bydd gofyn i OHPA ymgynghori â phersonau y mae'n ystyried eu bod yn briodol cyn llunio'i reolau. Byddai'n synhwyrol i OHPA ymgynghori'n helaeth ag ystod o bartïon â diddordeb, gan gynnwys amrywiol reoleiddwyr gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, pedair Adran Iechyd y DU, a chyrff sy'n cynrychioli cleifion a'r cyhoedd. Dylai'r Ddogfen Fframwaith ei gwneud yn glir y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn disgwyl i OHPA ymgynghori â'r AJTC cyn llunio'i reolau.

Roedd cynlluniau yn eu lle a chyngor cyfreithiol wedi'i gael i OHPA ymgynghori ar ei reolau "diwrnod cyntaf" a'i uchelgeisiau ar gyfer rheolau'r dyfodol yn ystod yr haf a'r hydref 2010, gan ddarparu darlun clir i bob grŵp, sefydliad ac unigolyn ynghylch y daith ddyfarnu fwriadedig o'r CMC i OHPA. Byddai'r ymgynghoriadau hyn (a gafodd eu gohirio yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth newydd ym mis Gorffennaf 2010 ei bod yn dymuno ymgynghori ar ddyfodol dyfarnu addasrwydd i ymarfer ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol) wedi rhedeg ar yr un pryd ag ymgynghoriadau gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Adran Iechyd.

Sefydlu a Llywodraethu OHPA

Argymhelliad

Yn unol â'r arfer sefydlog dylid penodi cadeirydd OHPA yn gyntaf a dylai ef neu hi eistedd ar y panel dethol ar gyfer aelodau eraill o'r bwrdd.

Penodwyd Walter Merricks gan y Comisiwn Penodiadau (gan weithredu ar ran y Cyfrin Gyngor) fel cadeirydd cyntaf OHPA a dechreuodd yn y swydd ym mis Tachwedd 2009. Gwahoddwyd ef gan y Comisiwn i ymuno â'i banel dethol a phenodwyd tri aelod anweithredol i'r bwrdd, sef Pamela Charlwood, Andrew Colquhoun a'r Fonesig Janet Finch, ynghyd â'r prif weithredwr. Y pum person hyn sy'n ffurfio bwrdd OHPA.

Argymhelliad

Dylid sicrhau mai un o dasgau cyntaf bwrdd cychwynnol OHPA yw cynhyrchu datganiad ar lywodraethu. Dylai'r datganiad gynnwys ystyriaeth o effeithiolrwydd tebygol bwrdd o dri i ddarparu llywodraethu ac atebolrwydd priodol a'r gallu i ddal y Prif Weithredwr yn atebol yn effeithiol gyda golwg ar gynnwys aelodau ychwanegol ar y bwrdd i'w penodi erbyn i OHPA ddod yn weithredol.

Mae dull dirprwyo awdurdod a phennu swyddogaethau wedi ei nodi ar ffurf datganiad llywodraethu (gweler **http://ohpa.org.uk/about-us/policies/our-policies-and-procedures/**). Ar ôl ymgynghori, mae'r bwrdd bellach yn cynnwys pum person, sef y cadeirydd a'r prif weithredwr a thri aelod anweithredol.

Argymhelliad

Dylid sicrhau mai rôl bwrdd OHPA fydd gosod cyfeiriad y sefydliad yn unol â'i ddyletswyddau statudol a'i ddiben. Dylai sicrhau bod systemau yn eu lle i'w alluogi i fonitro perfformiad, rheoli risgiau, a dal y weithrediaeth yn atebol. Dylai hefyd ddarparu bod systemau yn eu lle i sicrhau ei fod yn gweithredu gydag uniondeb.

Mae cynllun rhaglen wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â fframwaith llywodraethu. Mae'r rhain wedi'u cymeradwyo gan y bwrdd.

Argymhelliad

Dylai'r datganiad arfaethedig ar lywodraethu a gynhyrchir gan y bwrdd cychwynnol gynnwys atodlen awdurdod dirprwyedig i'r weithrediaeth.

Cynhyrchwyd atodlen awdurdod dirprwyedig yn rhan o'r strwythur a oedd yn ofynnol i OHPA ddod yn gorff corfforaethol ar 25 Ionawr 2010.

Paneli

Mae argymhellion wyth i bedwar ar bymtheg o *Tackling Concerns Nationally* oll yn ymwneud â sefydlu paneli, y rheolau ar gyfer paneli OHPA, penodi a rheoli perfformiad panelwyr, a chyfansoddiad y paneli hyn.

Y bwriad oedd y byddai'r rhan fwyaf o'r agweddau hyn ar waith OHPA yn destun ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae ymgynghori anffurfiol cychwynnol wedi helpu OHPA i sefydlu set o gynigion polisi a fyddai'n cwmpasu pob agwedd ar sefydlu'r paneli a'u dulliau o weithio. Penderfynodd y bwrdd y byddai OHPA yn mabwysiadu rheolau a dulliau gweithio CMC ar y diwrnod gweithredu cyntaf OHPA ond yn eu haddasu er mwyn sicrhau pontio'r gwasanaeth yn llyfn. Cyfarwyddwyd cyfreithwyr i ddrafftio set newydd o reolau ar gyfer y "diwrnod cyntaf" pan fyddai OHPA yn cymryd cyfrifoldeb dros ddyfarnu. Byddai ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal ynghylch y rheolau cychwynnol hyn yn 2010. Ar yr un pryd byddai OHPA wedi ymgynghori ynghylch ei uchelgeisiau at y dyfodol.

Trefniadau ariannol

Argymhelliad

Dylai'r fformiwla y bydd OHPA yn ei ddefnyddio i bennu ei ffi ystyried cymhlethdod a hyd tebygol achosion ynghyd â nifer yr achosion a ddaw i law.

Caiff OHPA ei gyllido ar hyn o bryd drwy gymorth grant gan yr Adran Iechyd. Os daw OHPA yn weithredol, bydd yn codi tâl ar y rheoleiddwyr y mae'n gwneud ei waith ar eu rhan - sef y CMC yn y lle cyntaf. Mae gwaith ar bennu strwythur ffioedd wedi cychwyn. Gan gymryd y bydd OHPA yn mynd yn ei flaen, bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y fformiwla ar gyfer gosod y ffioedd yn cael ei gynnal ar yr un pryd â'r ymgynghoriad ar y rheolau gweithdrefnol.

Argymhelliad

Byddai'n amhriodol i OHPA gronni cronfeydd sylweddol o gyllid wrth gefn. Fodd bynnag, dylai fod gan OHPA yr hyblygrwydd i ddwyn cyllid ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r nesaf.

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu OHPA yn canolbwyntio ar osod y prosesau ariannol cychwynnol, rhagfynegi angen cyllidebol ac archwilio'r strwythur ffioedd posibl. Gan gymryd y bydd OHPA yn mynd yn ei flaen, eir i'r afael yn benodol â'r argymhelliad hwn.

Gwybodaeth

Argymhelliad

Dylai bwrdd cychwynnol OHPA ddatblygu 'Cynllun Cyhoeddi' mor fuan â phosibl yn ymwneud â chyhoeddi a datgelu gwybodaeth a ddylai gynnwys polisïau mewn perthynas â chyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y bwrdd, ffi OHPA, manylion ffeithiol am statws achosion unigol a phenderfyniadau paneli. Dylid datblygu'r cynllun hwn mewn ymgynghoriad â phartïon â diddordeb.

Cafodd cynllun cyhoeddi interim ei lunio a'i gyhoeddi yn rhan o'r broses yn arwain at sefydlu OHPA fel corff corfforaethol ym mis Ionawr 2010. Y bwriad oedd datblygu adrannau pellach – gan gynnwys y rhai a fyddai'n ymwneud ag achosion unigol a phenderfyniadau paneli – yn ystod 2010-11. Mae'r cynllun cyhoeddi presennol yn dilyn arweiniad y Comisiynydd Gwybodaeth ar arfer gorau (gweler **http://ohpa.org.uk/about-us/policies/**).

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Nid yw'r argymhellion yn adran berthnasol adroddiad *Tackling Concerns Nationally* yn mynd i'r afael ag OHPA yn uniongyrchol ond fe'i cyfeirir at gyrff eraill a fydd yn monitro ein gweithgareddau, a chymryd y bydd OHPA yn parhau. Fodd bynnag, mae'r bwrdd a'r tîm trosiannol yn arbennig o ymwybodol o'r angen i wreiddio persbectifau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar waith OHPA. A chymryd y bydd OHPA yn parhau, byddwn yn datblygu polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb ac amrywiaeth cadarn. Bydd OHPA hefyd yn sicrhau bod asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn cael eu paratoi ar gyfer pob gweithgaredd allweddol.

Cyfnod Trosiannol

Argymhelliad

Dylid penodi bwrdd OHPA yn gynnar, cyn i'r corff ddod yn weithredol, er mwyn goruchwylio'r gwaith manwl fydd ei angen i sefydlu polisïau a gweithdrefnau.

Penodwyd tri aelod anweithredol a'r cadeirydd i'r bwrdd cyn i OHPA ddod yn endid cyfreithiol ac roeddent yn rhan annatod o'r gwaith o gymeradwyo'r holl bolisïau a gweithdrefnau angenrheidiol. Mae'r bwrdd wedi'i sefydlu'n llawn erbyn hyn ac mae'n cyfarfod yn ffurfiol bob mis.

Argymhelliad

Dylai bwrdd OHPA gytuno ar Femorandwm Dealltwriaeth gyda'r CMC a'r Adran Iechyd er mwyn diffinio perthnasau a phriod gyfrifoldebau. Wrth i gylch gorchwyl OHPA ymestyn, dylid cytuno ar Femorandwm Dealltwriaeth tebyg gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd Memorandwm Dealltwriaeth ar gyfer y cyfnod trosiannol wedi'i ddrafftio ar gyfer yr CMC a'r Cyngor Optegol Cyffredinol fel ei gilydd ac roedd y ddau'n cael eu trafod cyn cael eu llofnodi. Caiff cytundebau pellach gyda'r ddau reoleiddiwr a'r Adran Iechyd eu drafftio a'u cytuno i esbonio rolau a chyfrifoldebau os a phan ddaw OHPA yn weithredol.

Mae OHPA wedi gweithio'n agos iawn â'r CMC yn arbennig. Mae'r prosesau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan yr CMC wedi'u mapio a bu i'r tîm trosiannol asesu sut y gellid addasu'r rhain wrth i brosesau OHPA ei hun gael eu datblygu.

Cynghorwyd OHPA y byddai Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) yn berthnasol i unrhyw achos o drosglwyddo staff o'r CMC. Mae bwrdd OHPA a'r tîm trosiannol wedi ymgysylltu'n adeiladol â staff posibl at y dyfodol i helpu datblygu'r sefydliad.

Argymhelliad

Dylai OHPA gytuno i ymestyn ei gylch gorchwyl i achosion Cyngor Optegol Cyffredinol mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer cyn gynted â phosibl.

Yn ystod y cyfnod adrodd bu OHPA yn gweithio gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol i baratoi i drosglwyddo'i swyddogaethau dyfarnu.

Argymhelliad

Dylid sefydlu 'grŵp llywio gweithredu' i gefnogi gweithredu OHPA, o leiaf hyd nes bydd bwrdd cychwynnol OHPA yn ei le.

Bu grŵp gweithredu yn ei le ers cyn i OHPA ddod yn endid cyfreithiol ac mae'n parhau i fonitro'r rhaglen.

Adolygiad Ariannol

Cyllidwyd OHPA drwy gymorth grant gan yr Adran Iechyd o 25 Ionawr tan 31 Mawrth 2010 ac yn y cyfnod hwnnw roedd OHPA yn uniongyrchol atebol am ei wariant ei hun. Yn unol ag arweiniad Trysorlys EM, dangosir cymorth grant fel symudiad yn ei gronfeydd.

Cyhoeddir cyfrifon llawn yn rhan o'r adroddiad hwn.

Staff

Ni chofnodwyd unrhyw absenoldebau oherwydd salwch yn ystod y cyfnod hwn.

Polisi Talu'n Brydlon

Gweinyddwyd y rhan fwyaf o'r taliadau gan yr Adran Iechyd ac felly mae ei pholisi talu'n brydlon yn berthnasol.

Archwilydd

Caiff datganiadau ariannol blynyddol OHPA eu harchwilio'n allanol gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (RhAC) yn unol â pharagraffau 19(3) a (5) o Atodlen 6 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008. Am y cyfnod rhwng 25 Ionawr a 31 Mawrth 2010 mae'r RhAC wedi amcangyfrif mai cost y gwaith a wnaed fyddai £5,000 a darparwyd ar gyfer y swm hwn yn y datganiadau ariannol. Roedd y gwasanaethau archwilio a ddarparwyd gan staff y RhAC yn ymwneud â gwaith archwilio statudol yn unig.

Hyd eithaf gwybodaeth y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw archwilwyr OHPA yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol a sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Stephen Shaw

14 Hydref 2010

Rhan 2: Cyfrifon 2009-2010

Cynnwys

Adroddiad Cydnabyddiaeth **15**

Datganiad Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd a Chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu **16**

Datganiad ar Reoli Mewnol **17**

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Senedd San Steffan **20**

Cyfrif Gwariant Net **22**

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol **23**

Datganiad Llif Arian **24**

Datganiad Ecwiti'r Trethdalwyr **25**

Nodiadau i'r Cyfrifon **26**

Atodiad: Cyfeiriad Cyfrifon **34**

Adroddiad Cydnabyddiaeth

Polisi Cydnabyddiaeth

Penderfynir y gydnabyddiaeth a delir i'r cadeirydd ac aelodau anweithredol y bwrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd fel y cytunwyd gan y Comisiwn Apwyntiadau, ar ran y Cyfrin Gyngor.

Terfyniad

Nid oes iawndal yn daladwy i aelodau anweithredol y bwrdd am golli eu swydd. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n penderfynu a ddylid talu iawndal i gadeirydd yr OHPA.

Apwyntiadau

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd drwy'r Comisiwn Apwyntiadau yn apwyntio cadeirydd ac aelodau anweithredol y bwrdd am dymor sefydlog o dair i bedair blynedd a gall aelodau wneud cais am un tymor dilynol yn y swydd.

	Dyddiad Apwyntiwyd	Dyddiad Terfynu'r Apwyntiad	Y gyfradd flynyddol (£)	I Mawrth 2010 (£)
Walter Merricks (Cadeirydd)	25/01/2010	24/01/2014	100,000	18,549
Pamela Charlwood (Aelod)*	25/01/2010	24/01/2013	7,765	3,235***
Andrew Colquhoun (Aelod)**	25/01/2010	24/01/2014	7,765	3,235***
Dame Janet Finch (Aelod)	25/01/2010	24/01/2014	7,765	1,942
			123,295	**26,961**

Ymunodd y Prif Weithredwr, Stephen Shaw, ar 10 Mai 2010. Y bwrdd a wnaeth y penderfyniadau allweddol yn ystod y flwyddyn.

Cydnabyddiaeth y Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd

Dangosir y gydnabyddiaeth i'r cadeirydd ac aelodau'r bwrdd isod ac mae'r rhain yn ddarostyngedig i'w harchwilio. Nid oedd taliadau mewn nwyddau.

Mae OHPA yn ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth angenrheidiol a dalwyd gan aelodau OHPA wrth fynd i gyfarfodydd neu wrth ymgymryd â thasgau sy'n codi o'u haelodaeth a hynny yn unol â'r amodau ac yn ôl y cyfraddau a osodwyd gan y Comisiwn Apwyntiadau.

* Aelod y Pwyllgor Archwilio a Risg
** Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg
*** Yn cynnwys taliad rhodd ychwanegol am amser ychwanegol roedd ei angen ar gyfer cyfnod sefydlu yr OHPA

Pensiynau

Penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod y gydnabyddiaeth oedd yn daladwy i'r prif weithredwr yn bensiynadwy. Nid yw'r gydnabyddiaeth a delir i'r cadeirydd a'r aelodau anweithredol yn bensiynadwy.

Stephen Shaw
Swyddog Cyfrifyddu
Dyddiad: 14 Hydref 2010

Datganiad Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiwn Iechyd a Chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

1. Dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 ("Deddf 2008"), penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd ("OHPA") yn paratoi datganiad o gyfrifon pob blwyddyn ariannol mewn ffurf ac ar y sail a osodir yn y Penderfyniadau Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa OHPA ac o'r incwm a'r gwariant, newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr a llif arian am y flwyddyn ariannol.

2. Wrth baratoi eu cyfrifon bydd yn rhaid i'r OHPA gymryd i ystyriaeth egwyddorion cyfrifyddu ac anghenion dadleniad Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

    - cymryd sylw o'r Penderfyniadau Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol;
    - defnyddio polisïau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
    - barnu ac amcangyfrif ar sail resymol;
    - dilyn safonau cyfrifyddu cymwys, sy'n ddarostyngedig i weithredoedd perthnasol a ddatgelir a'u hegluro yn y cyfrifon; a
    - pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

3. Penododd y Cyfrin Gyngor y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu OHPA. Cyhoeddir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdanynt, am gadw cofnodion priodol ac am sicrhau asedau OHPA ym memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu a gyhoeddwyd yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Datganiad ar Reoli Mewnol

Sgôp y cyfrifoldebau

Fel swyddog cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reoli mewnol sy'n cynnal cyrhaeddiad polisïau, amcanion a bwriadau, wrth ddiogelu arian ac asedau'r cyhoedd rwyf i'n bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn ôl y cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus'. Wrth gymeradwyo'r adroddiad hwn, cefais ddigon o sicrwydd gan fy nhîm dros dro, yr Adran Iechyd a'r cyfarwyddwr ariannol.

Pwrpas system rheoli mewnol

Cynlluniwyd system rheoli mewnol i reoli risg i lefel rhesymol yn hytrach nag i ddiddymu pob risg o fethiant i gyflawni polisïau, amcanion a bwriadau; ni all felly ond darparu sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system o reoli mewnol wedi'i seilio ar broses gyfredol sydd wedi'i chynllunio i adnabod a blaenoriaethu'r peryglon i gyrhaeddiad polisïau, amcanion a bwriadau OHPA, i werthuso'r tebygrwydd y bydd y peryglon hynny'n digwydd a'r effaith pe bai hynny yn digwydd, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Bu'r system o reoli mewnol yn ei lle yn OHPA am y cyfnod 25 Ionawr 2010 i 31 Mawrth 2010 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon, ac yn unol â chanllaw'r Trysorlys.

Cymhwyster i drin risg

Cyfarfu bwrdd OHPA deirgwaith ar ffurf gysgodol yn ystod 2009-10. Daeth OHPA yn endid cyfreithiol ar 25 Ionawr 2010. Cyfarfu bwrdd OHPA ddwywaith rhwng 25 Ionawr a 31 Mawrth 2010. Ffurfiwyd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod y cyfnod hwn, ond ni fu cyfarfod tan 30 Mehefin 2010. Cymeradwywyd y gofrestr risg oedd yn ffurfio rhan o'r dogfennau cychwyn gan fwrdd OHPA. Mae bwrdd OHPA wedyn wedi cymeradwyo strategaeth rheoli risg a chofrestr risg rhaglen strategol.

Bu cofrestr risg strategol i raglen yr OHPA yn gyfrifoldeb i mi ynghyd â rheolwr y rhaglen. Mae system rheoli risg yn cael ei datblygu ymhellach i sicrhau ei bod wedi'i sefydlu oddi fewn i holl ffrydiau'r prosiect sy'n cefnogi rhaglen OHPA. Cynhaliodd y cyfarwyddwr cyllid sesiwn hyfforddi un i un gyda phob cyfarwyddwr ffrwd i gyflwyno strategaeth rheoli risg yr OHPA. Roedd pob cyfarwyddwr ffrwd gwaith yn gyfrifol am adnabod risg eu prosiectau, ac am ddefnyddio system i'w hasesu a'u monitro'n gyson.

Fframwaith risg a rheoli

Mae OHPA yn parhau i fod yn ei gyfnod sefydlu dros dro. Apwyntiwyd tîm pontio OHPA erbyn diwedd y cyfnod hwn o adrodd yn ôl. Yr Adran Iechyd yw prif noddwr y rhaglen hon. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng uwch swyddog cyfrifol y rhaglen yn yr Adran a thîm dros dro'r OHPA.

Fframwaith rheoli rhaglen

Seiliwyd y system rheoli mewnol ar fframwaith rheoli rhaglen sy'n cynnwys y canlynol:

Cynhaliwyd cyfarfodydd bwrdd y rhaglen yn fisol. Pwrpas y cyfarfod bwrdd oedd i reoli cyflenwi'r rhaglen bontio. Ffurfiwyd y bwrdd o uwch gynrychiolwyr OHPA (sy'n cadeirio'r cyfarfod), y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), yr Adran Iechyd a'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (AJTC). Mae yno hefyd gynrychiolaeth o'r Cyngor Optegwyr Cyffredinol (y disgwylid iddo drosglwyddo ei swyddogaeth fel beirniad i OHPA ar ddyddiad diweddarach) a dau aelod arall sy'n cynnig swyddogaeth herio ac archwilio. Mae bwrdd y rhaglen wedi adolygu cynllun y rhaglen a'r adroddiad, gan dynnu sylw at feysydd risg a chytuno ar weithredoedd lliniaru.

Cynhelir cyfarfodydd bwrdd OHPA yn fisol. Pwrpas bwrdd yr OHPA yw arwain cyfeiriad strategol OHPA, ac arwain datblygiad y sefydliad newydd. Mae bwrdd rhaglen OHPA i bob pwrpas yn adrodd yn ôl i fwrdd yr OHPA ar bob agwedd o gynllunio, adrodd yn ôl a rheoli risg y rhaglen. Y cyfarfod cyntaf a fynychwyd gan y prif weithredwr newydd oedd ar 24 Mawrth 2010.

Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm ar lefel cyfarwyddwyr i gyflwyno diweddariad busnes ar ddigwyddiadau diweddar ac i ddynodi materion pwysig yn y tymor byr a'r tymor canolig. Hefyd defnyddiwyd y cyfarfodydd cyfarwyddwyr i sicrhau fod y tîm dros dro wedi ei hysbysu'n llawn am ddatblygiadau cyfredol yn OHPA a'r rhaglen.

Cynhaliwyd cyfarfodydd cynllunio dros dro bob bythefnos gyda'r cyfarwyddwyr a thîm y rhaglen i adolygu yn strategol y cynnydd, peryglon a phroblemau. Gwnaed hyn drwy gynnig diweddariad ar gynlluniau ffrwd gwaith unigol ac adroddiadau, oedd yn eu tro yn bwydo i gynllun carreg filltir cyffredinol y rhaglen ac yn amlygu'r uchafbwyntiau.

Oddi mewn i'r cyfnod hwn, bu OHPA yn y broses o ddatblygu Grŵp Gweithredu a Throsglwyddo (IDG) gyda GMC. Byddai IDG, unwaith wedi'i ffurfio, yn dod ag arweinydd pob ffrwd waith ar draws y rhaglen at ei gilydd i arolygu cynnydd a risg ymhob ffrwd waith mewn mwy o fanylder nag a gyflwynir i fwrdd y rhaglen.

Fframwaith rheoli ariannol

Cytunwyd ar Fframwaith Cyllido ac Atebolrwydd OHPA gyda'r Adran Iechyd am y cyfnod dros dro. Yn ystod y cyfnod hwn roedd OHPA yn ei ddyddiau cynnar. Tra roedd OHPA yn datblygu ei system ei hun o reoli ariannol mewnol, roedd yr Adran yn gweinyddu'r mwyafrif o brosesau meddiannu a thaliadau i'r staff a'r cyflenwyr ar ei ran. Dechreuodd OHPA weinyddu ei daliadau i staff a chyflenwyr yn ystod rhan olaf y flwyddyn ariannol.

Fframwaith rheoli eraill

Mae OHPA ar hyn o bryd yn ei gyfnod cychwynnol ac nid yw eto wedi dechrau datblygu ei gymwysiadau TG na'i seilwaith. Mae OHPA wedi apwyntio ei brif swyddog gweithredol fel Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO). Bu Diogelwch Gwybodaeth yn gyfrifoldeb y cyfarwyddwr TG dros dro.

Rheolir yn ddiogel holl ddata electronig OHPA drwy ddefnyddio Gwasanaethau Gwybodaeth yr Adran Iechyd. Mae'r Adran Iechyd yn darparu pob agwedd ar archwilio diogelwch, bwrdd gwaith, seilwaith a chymwysiadau.

Mae gan OHPA ei chyfnewidfa e-bost ei hun sy'n cael ei chynnal a'i chadw gan Rackspace Cyf drwy'r Adran Iechyd. Tra bod Rackspace Cyf yn darparu cyfleuster cytundeb 'porthladd diogel' **(http://www.export.gov/safeharbor/)**, mae pob dogfen, yn benodol ond nid yn unig y rhai sy'n cynnwys data personol, sy'n cael ei throsglwyddo drwy e-bost yn cael ei harchifo i yriant pwrpasol a reolir gan yr Adran Iechyd sy'n cynnwys strwythur ffeil OHPA.

Hyd yn hyn ni adroddwyd ar unrhyw ddigwyddiad diogelwch data yn yr OHPA.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel swyddog cyfrifyddu, mae gen i'r cyfrifoldeb o adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol wedi'i arwain gan gyngor wrth y Cyfarwyddwr Cyllid sydd â'r cyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Cefais fy nghynghori gan y bwrdd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol, ac mae cynlluniau i fynd i'r afael â gwendidau ac i sicrhau gwelliant parhaol y system wedi'u gosod yn eu lle.

Stephen Shaw

Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 14 Hydref 2010

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Senedd San Steffan

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd (OHPA) am y cyfnod 25 Ionawr i 31 Mawrth 2010 dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008. Mae'r rhain yn cynnwys Cyfrif Gwariant Net, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a'r nodiadau perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi dan y polisïau cyllido a gyflwynwyd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth a ddisgrifir yn yr Adroddiad fel un sydd wedi'i archwilio.

Cyfrifoldebau priodol OHPA, y Swyddog Cyfrifyddu, a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r OHPA a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r OHPA a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol a bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn ôl y gyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn gofyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

Sgôp yr archwiliad o ddatganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am symiau a datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatgan sylweddol, wedi'i achosi naill ai gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu a yw'r polisïau archwilio yn briodol i amgylchiadau'r OHPA ac wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan OHPA; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Hefyd, mae gofyn i mi gasglu digon o wybodaeth i roi sicrwydd rhesymol fod y gwariant a'r incwm a adroddir yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio i'r pwrpas y cawsant eu bwriadu gan Senedd San Steffan a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i defnyddiwyd y gwariant a'r incwm, i bob pwrpas rhesymol, i'r amcanion y'i bwriadwyd gan Senedd San Steffan ac y mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion OHPA fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2010, ac o'r gwariant net, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llif arian am y cyfnod a ddaeth i ben bryd hynny; a
- bod y datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn gywir yn ôl Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd dan y ddeddf gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd.

Pwyslais mater - Busnes Gweithredol

Wrth ffurfio barn, nad yw'n gymwysedig, ystyriais addasrwydd datgeliadau yn y datganiadau ariannol a wnaed yn nodyn 1.2 'Busnes Gweithredol' a nodyn 12 'Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd' sy'n mynd i'r afael ag ymgynghoriad cyfredol y Llywodraeth am ddyfodol OHPA. Mae'r ymgynghoriad yn nodi bodolaeth ansicrwydd a all fwrw amheuaeth arwyddocaol ar allu Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd i barhau fel busnes gweithredol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys yr addasiadau a fyddai'n dilyn pe na bai Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd yn gallu parhau fel busnes gweithredol.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- Mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w archwilio wedi'i baratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a gyhoeddwyd dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008; ac mae'r
- Wybodaeth a roddwyd yn y sylwebaeth reoli yn yr adroddiad am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol y byddwn yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu addas wedi'u cadw, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r dychweliadau; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r eglurhad roeddwn yn gofyn amdano ar gyfer yr archwiliad;
- nad yw'r Datganiad ar Reoli Mewnol yn adlewyrchu cydymffurfio â chanllaw Trysorlys Ei Mawrhydi.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau ar y datganiadau ariannol hyn.

Amyas C E Morse

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

Dyddiad: 15 Hydref 2010

Cyfrif Gwariant Net

Am y cyfnod o 25 Ionawr i 31 Mawrth 2010

	Nodyn	£
Gwariant		
Costau Staff	3	247,925
Cost llety a gwasanaethau wedi'u rheoli	4	18,882
Gwariant arall	5	346,434
		(613,241)
Cost tybiedig cyfalaf	6	-
Gwariant Net		**(613,241)**
Cost tybiedig gwrthdroi cyfalaf	6	-
Gwariant net ar ôl cost cyfalaf		**(613,241)**

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y gweithgareddau i gyd yn parhau. Ar hyn o bryd maent yn destun ymgynghoriad ffurfiol gan yr Adran Iechyd.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 33 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2010

	Nodyn	£
Asedau nad ydynt yn gyfredol:		
Eiddo, peiriannau ac offer		-
Asedau Cyfredol:		
Taliadau ymlaen llaw	11	1,469
Arian a chyfwerthoedd arian	8	312,920
Cyfanswm Asedau		314,389
Dyledion cyfredol:		
Masnach a symiau taladwy eraill	9	(106,050)
Symiau taladwy i'r Adran Iechyd	9	(208,339)
Cyfanswm dyledion cyfredol		(314,389)
Asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net		-
Asedau heb ddyledion		-
Adnoddau wrth gefn:		
Arian cyffredinol wrth gefn.	10	-
		-

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 23 i 33 gan y bwrdd ar 30 Mehefin 2010 a'u harwyddo ar ei ran gan:

Stephen Shaw

Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 14 Hydref 2010

Nid yw'r daliadau agoriadol a ffigyrau cymharol wedi'u dangos gan na chafodd OHPA ei sefydlu'n ffurfiol tan 25 Ionawr 2010.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 26 i 33 yn rhan o'r datganiadau ariannol

Datganiad Llif Arian

Am y cyfnod o 25 Ionawr i 31 Mawrth 2010

	Nodyn	£
All-lif arian o weithgareddau gweithredu		
Gwariant net		(613,241)
Cost tybiedig cyfalaf		-
Cynnydd mewn symiau sy'n daladwy i fasnach		106,050
Arian a dynnwyd i lawr sy'n daladwy i'r Adran Iechyd		208,339
Cynnydd yn y biliau derbyniadwy a thalu ymlaen llaw		(1,469)
All-lif arian clir o weithgareddau gweithredu		(300,321)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		-
Llif arian o weithgareddau ariannol		
Cymorth Grant gan yr Adran Iechyd	2	613,241
Cynnydd net mewn arian a chyfwerth oedd arian yn ystod y cyfnod		312,920
Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod		-
Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod		**312,920**

Datganiad Ecwiti'r Trethdalwyr

O 25 Ionawr i 31 Mawrth 2010

	Nodyn	Cronfa Gyffredinol £
Mantolen ar 25 Ionawr 2010		-
Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr am 2010		
Colledion argadwedig		(613,241)
Cyfanswm yr incwm a'r gwariant a adwaenir am 2010		(613,241)
Grant y Llywodraeth o'r Adran Iechyd	2	613,241
Mantolen ar 31 Mawrth 2010		-

Nodiadau i'r Cyfrifon

1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu
Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn ôl Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2009-10 (iFReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn yr iFReM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Ble mae'r iFReM yn caniatáu dewis o bolisïau cyfrifyddu, dewiswyd y polisi y barnwyd oedd y mwyaf addas ar gyfer amgylchiadau arbennig Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd (OHPA) i bwrpas rhoi darlun gwir a theg. Isod, disgrifir y polisïau arbennig a fabwysiadwyd gan yr OHPA ar gyfer y gweithgareddau yr adroddir arnynt. Cawsant eu defnyddio'n gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn faterol i'r cyfrifon.

1.1 Confensiwn Cyfrifyddu
Paratowyd y cyfrifon hyn yn ôl confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i gymryd i ystyriaeth ailbrisio eiddo, man gweithio ac offer, asedau anniriaethol a stocrestrau.

1.2 Busnes gweithredol
Mae OHPA yn derbyn cyllid gan yr Adran Iechyd ar gyfer ei gostau gweithredol. Mae'r Adran Iechyd wedi cadarnhau y bydd yn parhau i gyllido OHPA drwy grant cymorth am y cyfnod sy'n gorffen 31 Mawrth 2011. Gan ddibynnu ar ganlyniadau ymgynghoriad y Llywodraeth ar ddyfodol ei addasrwydd i ddyfarnu'r proffesiynau iechyd, bydd yr Adran yn parhau i gynnig grant i OHPA nes y bydd yn weithredol neu'n cael ei gau i lawr. Felly, dyfarnwyd ei bod yn addas ei ystyried ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn.

1.3 Cymorth Grant
Mae anghenion ariannol net OHPA yn cael eu cyllido gan gymorth grant o'r Adran Iechyd, sy'n cael ei gredydu i'r gronfa gyffredinol ac na ddangosir fel incwm. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn y cyfnod ariannol pan dderbynnir y cyllid dan sylw.

1.4 Asedau diriaethol nad ydynt yn gyfredol
Mae gwariant ar asedau diriaethol yn cael ei gyfalafu. Mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn cynnwys trwyddedau meddalwedd, offer technoleg gwybodaeth, offer a ffitiadau swyddfa, a gwelliannau prydles swyddfa. Eglurir cyfyngiadau trothwy cyfalafu a pholisi dibrisiant isod:

Mae gwariant ar brosiectau gwybodaeth technoleg mawr yn cael ei gyfalafu. Mae hyn yn cynnwys gwariant anuniongyrchol ar galedwedd, meddalwedd a chostau gosod peirianwaith addas gan ymgynghorwyr.

Mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael eu cyfalafu os yw'r gost yn £3,000 neu fwy. Fodd bynnag ar gyfer pryniant mewn grŵp o offer TG, meddalwedd TG neu ffitiadau a dodrefn gyda chost o £500 neu fwy mae'r rhain yn cael eu cyfalafu pan fydd cyfanswm cost pryniant mewn grŵp yn £1,500 neu fwy.

Mae asedau yn y broses o gael eu hadeiladu yn cael eu cyfalafu am gost gwerthiant ac wedyn yn cael eu dibrisio o'r dyddiad y maent yn weithredol.

I bwrpas amcangyfrif gwerth cyfredol mae ailbrisio yn cael ei weithredu gan ddefnyddio mynegeion a baratowyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol hyd at werth cau'r asedau materol yn unig (e.e. gwelliant prydles) ar ddiwedd y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Mawrth. Mae colledion ailbrisio ar ddyddiad y fantolen yn cael eu dileu yn erbyn y gyfran o weddill y credyd ar yr ailbrisio sydd wrth gefn. Mae gwerth unrhyw golledion eraill sy'n aros yn cael eu codi o'r cyfrif gwariant net.

1.5 Dibrisiad

Codir pris dibrisio ar bob un o'r asedau nad ydynt yn gyfredol ar raddfeydd a gyfrifir i ysgrifennu gwerth pob ased i'w werth gweddilliol amcangyfrifedig yn wastad dros ei fywyd defnyddiol disgwyliedig. Hyd y bywydau a amcangyfrifir yn gyfredol am bob dosbarth o asedau yw:

Offer a ffitiadau	Pum mlynedd
Gwelliant prydles	Deng mlynedd
Offer Swyddfa a TG	Tair blynedd

1.6 Asedau anniriaethol

Mae costau cychwynnol meddalwedd a thrwyddedau yn cael eu cyfalafu a'u hamorteiddio dros fywyd defnyddiol y meddalwedd, tra codir arian am drwyddedau blynyddol i ddefnyddio meddalwedd neu i sicrhau diweddaru parhaus gan y cyfrif gwariant net wrth iddynt gael eu prynu. Lefel isafswm y cyfalafu am asedau sefydlog yw £3,000. O'u hadnabod am y tro cyntaf mesurir asedau yn ôl cost, gan gynnwys costau fel gosod peirianwaith sy'n uniongyrchol berthnasol i ddod â'r ased i gyflwr gweithio ar gyfer y defnydd y bwriadwyd iddo ei gyflawni.

Hyd y bywydau a amcangyfrif yn gyfredol i bob dosbarth o asedau yw:

Datblygu meddalwedd a thrwyddedau	Tair blynedd

1.7 Trethu

Mae gwariant yn y cyfrif gwariant net yn cael ei ddangos i gynnwys Treth Ar Werth (TAW), sydd yn anadferadwy i OHPA.

1.8 Tâl cyfalaf

Yn unol â gofynion Trysorlys ei Mawrhydi cynhwysir tâl sy'n adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddiwyd gan OHPA yn y cyfrif gwariant. Cyfrifir y tâl ar raddfa real wedi'i osod gan Drysorlys ei Mawrhydi (gradd gyfredol yn 3.5 y cant) am y flwyddyn ariannol 2009/10 ar y cyfartaledd o gludo cyfanswm yr holl asedau heb y dyledion. Mae'r tâl damcaniaethol yn cael ei gredydu'n ôl i'r cyfrif gwariant am y flwyddyn cyn cymryd y gwarged/colled am y flwyddyn i'r arian cyffredinol wrth gefn.

1.9 Pensiynau

Mae OHPA yn dal i ystyried y dewisiadau am ddarpariaeth pensiwn parhaol i'r staff. Mae unrhyw aelod staff a apwyntiwyd dros dro ar secondiad tan 31 Mawrth 2010 yn cadw cynllun pensiwn ei gyflogwr gwreiddiol.

2 Cymorth grant

	£
Cymorth grant	
Derbyniwyd am wariant cyllid	613,241
Derbyniwyd am wariant cyfalaf	-
	613,241

Cymorth grant a dynnwyd i lawr	334,000
Taladwy i'r Adran Iechyd	(208,339)
Taliadau ymlaen llaw gan yr Adran Iechyd	1,469
Gwario gan OHPA	127,130
Gwario gan yr Adran Iechyd ar ran OHPA	486,111
	613,241

3 Niferoedd staff a chostau perthnasol

(a) Costau staff yn cynnwys

	Staff a gyflogir yn barhaol	Aelodau'r Bwrdd	Eraill	Cyfanswm
	£	£	£	£
Cyflogau a thaliadau	19,564	26,961	196,687	243,212
Cost Nawdd Cymdeithasol	800	3,085		3,885
Cost pensiwn arall	828			828
Cyfanswm costau net	**21,192**	**30,046**	**196,687**	**247,925**

(b) Cyfartaledd niferoedd y bobl a gyflogir

Roedd cyfartaledd nifer y rhai a gyflogwyd yn llawn amser yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	Staff	Others	Total
Cyflogwyd yn uniongyrchol	2		2
Cyflogwyd drwy eraill	2	7	9
Cyfanswm	**4**	**7**	**11**

4 Cost llety a gwasanaethau a reolir

	£
Cost llety a gwasanaethau a reolir	18,882*

* Mae'r Adran Iechyd yn darparu'r gwasanaeth hwn i OHPA. Mae'n eithrio Cyllid ac Adnoddau Dynol.

5 Gwariant arall

	£
Cynllunio gwefan a gwe-letya	35,700
Cost recriwtio	133,732
Adolygu prosesau busnes	100,950
Brandio	30,000
Ffioedd Ymgynghori	6,566
Ffioedd archwilio	5,000
Costau gweinyddol eraill	34,486
	346,434

6 Cost Cyfalaf

	£
Cost tybiedig cyfalaf	-

7 Eiddo, peiriannau ac offer

	£
Eiddo, peiriannau ac offer	-

Ni phrynwyd asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y cyfnod.

8 Arian a chyfwerthoedd arian

	£
Gweddill ar 25 Ionawr 2010	-
Newid net yn y fantolen arian a chyfwerthoedd arian	312,920
Gweddill ar 31 Mawrth 2010	**312,920**

Roedd gweddill yr arian ar 31 Mawrth 2010 mewn:

Banciau Masnachol	312,920
Gweddill ar 31 Mawrth 2010	**312,920**

9 Symiau taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

Symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn

	£
Symiau Masnach Taladwy	13,199
HMRC	14,680
Croniadau	78,171
	106,050
Yn ddyledus i'r Adran Iechyd	**208,339**

10 Incwm a Gwariant wrth gefn

	£
Gwariant Net	(613,241)
Cymorth grant	613,241
	-

11 Symiau masnach derbyniadwy a thaliadau ymlaen llaw

	£
Taliadau ymlaen llaw	1,469

12 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Yn unol â gofynion IAS10, ystyrir digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd hyd at y dyddiad pryd yr awdurdodir y cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Ar 26 Gorffennaf 2010, cyhoeddodd Is-ysgrifennydd Gwladol o'r Adran Iechyd mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog nad oedd y Llywodraeth wedi'i pherswadio mai creu OHPA oedd y ffordd fwyaf addas na'r mwyaf priodol o gyflwyno dyfarniadau addasrwydd i ymarfer ar feddygon. Cyhoeddwyd papur ymgynghorol, *Fitness to Practise Adjudication for Health Professionals: Assessing different mechanisms for delivery*, ar 7 Awst, gyda'r cyfnod ymgynghorol yn gorffen ar 11 Hydref.

Yng ngoleuni'r digwyddiad hwn mae bwrdd OHPA wedi adolygu priodoldeb paratoi'r datganiadau ariannol ar sail 'busnes gweithredol'.

Mae'r bwrdd yn nodi, hyd yn oed pe byddai'r Llywodraeth yn penderfynu peidio â mynd ymlaen â rhaglen OHPA, y byddai angen deddfwriaeth cyn y gellid diddymu OHPA a therfynu neu drosglwyddo cyfrifoldebau. Byddai unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath, pe bai'n llwyddo, yn annhebygol o dderbyn y Cydsyniad Brenhinol cyn Gorffennaf 2011. Yn y cyfamser mae'r bwrdd yn fodlon fod cyllid digonol yn ei le a fydd yn galluogi OHPA i barhau i gyfarfod â'i ymrwymiadau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

O dderbyn ymateb cyntaf y Llywodraeth a'r diffyg eglurder angenrheidiol ynglŷn â'r oblygiadau i'r OHPA, daeth y bwrdd i'r casgliad fod ansicrwydd yn bodoli sy'n bwrw amheuaeth dros allu OHPA i barhau fel busnes gweithredol. Fodd bynnag, wedi gwneud llawer o ymholiadau ac o ystyried yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd uchod, ynghyd â chanlyniad eu trafodaethau gyda'r Adran, mae gan y bwrdd ddisgwyliadau y bydd OHPA ag adnoddau digonol i barhau i fodoli'n weithredol am gyfnod rhagweladwy. Am y rhesymau hyn, mae'r bwrdd yn parhau i fabwysiadu'r sylfaen busnes gweithredol wrth baratoi'r adroddiad a'r datganiadau ariannol.

Nid yw'r cyfrifon yn cynnwys yr addasiadau a fyddai'n dilyn pe bai OHPA yn analluog i barhau fel busnes gweithredol.

13 Trafodion partïon cysylltiedig

Cyllidir OHPA gan yr Adran Iechyd drwy gymorth grant. Ystyrir yr Adran Iechyd fel parti cysylltiedig. Yn ystod y cyfnod, cafodd yr OHPA wahanol drafodion perthnasol â'r Adran Iechyd, a chynhaliwyd pob un ar brisiau hyd braich.

Ni fu i unrhyw un o aelodau'r bwrdd ymgymryd â thrafodion â'r OHPA yn ystod y cyfnod, ar wahân i gydnabyddiaeth a dalwyd am eu gwasanaeth ac, yn achos aelodau anweithredol, cydnabyddiaeth am gostau teithio o'u cartref i'r swyddfa.

14 Offerynnau ariannol
Gan fod anghenion ariannol OHPA wedi'u talu drwy gymorth grant gan yr Adran Iechyd am y flwyddyn ariannol 2009/10, nid yw OHPA wedi'i adael yn agored i beryglon credyd, hylifedd neu'r farchnad.

Risg Hylifedd: Ni adawyd yn arwyddocaol ddiamddiffyn o ystyried fod anghenion adnoddau net OHPA am y flwyddyn ariannol yn cael ei gyllido gan gymorth grant.

Risg graddfa llog: Nid yw OHPA yn agored i risg graddfa llog gan nad oes ganddo ddyledion ariannol ac asedau ariannol sydd mewn cyfrif cadw â graddfa llog amrywiol.

Risg arian tramor: Nid yw OHPA yn ymdrin ag arian tramor ac nid yw'n ddarostyngedig i risg anwadaliad arian.

Symiau Derbyniadwy: Am y cyfnod, cafodd OHPA ei gyllido'n llwyr gan gymorth grant. Gan fod hwn yn gyfrif cyfnod dros dro, nid yw OHPA yn agored i unrhyw risg credyd.

Symiau Taladwy: Cydnabyddir rhwymedigaethau am gyfrifon sy'n ddyledus i'w talu yn y dyfodol am nwyddau neu wasanaethau a dderbyniwyd, os ydynt wedi'u hanfonebu ai peidio. Os nad oes termau masnach wedi'u pennu, fe'i telir dim hwyrach na 30 diwrnod o dderbyn yr anfoneb. Nid yw OHPA yn agored i grynodiadau o risg credyd i un neu grŵp o symiau taladwy.

15 Gwelliannau a dehongliadau Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) sydd ar fin cael eu cyflwyno ond ddim yn effeithiol nac wedi'u mabwysiadu eto.

Mae angen datgelu **IAS 8**, polisïau cyfrifyddu, newidiadau mewn amcangyfrifon a chamgymeriadau cyfrifyddu o gofio'r gwelliannau a dehongliadau IFRS newydd sydd ac a fydd yn berthnasol ar ôl y cyfnod adrodd. Mae nifer o welliannau a dehongliadau IFRS sydd wedi'u cyhoeddi gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Cydwladol sydd yn effeithiol ar gyfer datganiadau ariannol ar ôl y cyfnod hwn o adrodd. Ystyriwyd y canlynol fel rhai perthnasol ac nid ydynt wedi'u mabwysiadu'n gynnar gan yr OHPA:

IFRS 9 offerynnau ariannol
Safon newydd a fwriedir i ddisodli IAS 39. Y dyddiad perthnasol yw cyfnodau cyfrifyddu sy'n cychwyn ar, neu wedi 1 Ionawr 2013.

IAS 7 datganiadau llif arian
Gwelliannau i'r safon bresennol. Y dyddiad perthnasol yw cyfnodau cyfrifyddu sy'n cychwyn ar, neu wedi 1 Ionawr 2010.

IAS 17 prydlesi
Gwelliannau i'r safon bresennol. Y dyddiad perthnasol yw cyfnodau cyfrifyddu sy'n cychwyn ar, neu wedi 1 Ionawr 2010.

IAS 24 datgeliadau partïon cysylltiedig
Gwelliannau i'r safon bresennol. Y dyddiad perthnasol yw cyfnodau cyfrifyddu sy'n cychwyn ar, neu wedi 1 Ionawr 2011.

IAS 36 amhariad asedau
Gwelliannau i'r safon bresennol. Y dyddiad perthnasol yw cyfnodau cyfrifyddu sy'n cychwyn ar, neu wedi 1 Ionawr 2010.

Nid yw unrhyw un o'r safonau newydd neu ddiwygiedig hyn yn debygol o fod yn berthnasol ac ni ragwelir y caiff effaith berthnasol yn y dyfodol ar ddatganiadau ariannol OHPA.

Yn ychwanegol, mae'r newidiadau isod i'r iFReM, a fydd yn berthnasol am y cyfnodau cyfrifyddu sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2010:

Pennod 8 amhariadau
Addasiad o IAS 36 amhariadau asedau.

Pennod 11 incwm a gwariant
Tynnu cost codi cyfalaf.

Ni ragwelir y bydd y newidiadau hyn i'r iFReM yn cael effaith yn y dyfodol ar ddatganiadau ariannol OHPA.

Atodiad: Cyfeiriad Cyfrifon

1. Dan baragraffau 19 (1), (2) a (3) o Atodiad 6 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 ("Deddf 2008"), mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y grym i benderfynu ar ffurf y cyfrifon sy'n rhaid i'r Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd ("OHPA") eu cadw, ffurf y cyfrifon blynyddol ym mhob blwyddyn ariannol y mae'n rhaid i OHPA ei baratoi, a'r cyfnod yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddo, oddi fewn i'r hwn mae'n rhaid i OHPA anfon copïau o'r cyfrifon cyffredinol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.
2. Mae'r llythyr hwn yn sefydlu penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn y materion hyn, ac mae'n effeithiol o ddyddiad y llythyr hwn.
3. Wrth baratoi ei gyfrifon rhaid i'r OHPA ystyried egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu y Llawlyfr Adrodd Ariannol.
4. Rhaid i gyfrifon blynyddol yr OHPA:
   - roi darlun gwir a theg o'r sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn ac o'r incwm a'r gwariant, yr enillion a'r colledion y gellir eu canfod yn llawn, a llif arian yr OHPA am y flwyddyn a ddaeth i ben; a
   - darparu dadleniad o unrhyw wariant perthnasol neu incwm na chafodd ei ddefnyddio ar gyfer y pwrpas y bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio gan y Senedd, neu drafodion perthnasol na fu iddynt gydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.
5. Y cyfnod yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae cyfrifon blynyddol yr OHPA yn cyfeirio ati, pryd y mae'n ofynnol i OHPA anfon copïau o'u cyfrifon blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol, ac i'r Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol yw saith mis yn y flwyddyn gyntaf a deufis ar ôl hynny.
6. Mae'r nodyn hwn i'w atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon a gyhoeddir.

28 Gorffennaf 2010

TSO
information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan y TSO (y Llyfrfa) ac ar gael:

Ar-lein
www.tsoshop.co.uk

Post, ffôn, ffacs ac e-bost
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522
Archebu drwy Linell Gymorth Lo-call y Senedd 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

Siop Lyfrau'r Senedd
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs:020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac asiantau achrededig eraill

Gall cwsmeriaid hefyd archebu cyhoeddiadau oddi wrth:
TSO Iwerddon
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol: 028 9023 8451
Archebion ffacs: 028 9023 5401

ISBN 978-0-10-296921-4
9 780102 969214